**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth, 8fed o Fai, 2018 am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol -** Cynghorwyr – Lisbeth James (LJ), Olwen Roberts (OR), Sianelen Pleming [cyrr 9:15] (SP), Sara Williams (SW) John Owen (JO), Gwilym Williams (GW), Griffith Jones (GJ), William Jones (WJ) a'r Cyng Aled Jones (AJ)

1. **Hysbysiadau y Cadeirydd -** Croesawyd pawb gan y Cadeirydd.
2. **Ymddiheuriadau -** Emlyn Hughes.
3. **Datgan Diddordeb –** Neb
4. **Diweddariadau asedau –** Nododd WJ fod coedyn yn pydru ar fainc Pistyll. *Bu GW mor garedig a dweud y gwnaiff amnewid y coedyn mewn golwg.*
5. **Cofnodion**

***5.1 Cyflwyno a mabwysiadu***

Cynigodd LJ fod cofnodion y 10fed o Ebrill, 2018 yn gywir. Eiliodd WJ ac fe'u mabwysiadwyd.

***5.2 Materion yn codi***

***5.2.1*** **Mynwent Pistyll –** Mae WJ am gael gair gyda 'Natural Retreats' cyn diwedd yr wythnos pryd y bydd yn gliriach pa gymorth y gallant ei roi i'r Cyngor o ran cynnal a chadw'r fynwent. Nododd GW ei fod wedi gwahodd tri phris ar gyfer dorri gwair yn rhan y Cyngor o'r fynwent. Roger Owen, Chwilog yn unig a gyflwynodd pris erbyn yr amser cau. Cynigiodd OR fod y Cyngor yn penodi Roger Owen i ymgymryd a'r gwaith am gôst o £480 am ddau doriad onibai fod Natural Retreats am ymgymryd a'r gwaith. Eiliodd a chytunodd pawb. *GW i drefnu mewn ymgynghoriad gyda WJ. Y Clerc i ddrafftio ffurflen archeb ar gyfer cyfarfod mis Mehefin.*

***5.2.2*** **Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn -** *Y Clerc i barhau i ymchwilio archif y Cyngor Cymuned o ran hyd a lled eu cyfrifoldeb am ran isa'r maes parcio.*
Tynwyd sylw'r Cyngor at wastraff gardd sydd yn cael ei adael ar yn ffordd at y chwarel wrth ymyl y maes parcio. *Y Clerc i gysylltu gyda AHNE i weld beth ellir ei wneud am y mater ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.*

***5.2.3*** **Cerrig Milltir Plwyf Pistyll –** *Y Clerc i fynd i'r Archifdy yng Nghaernarfon i ymchwilio pan y bydd amser yn caniatau.*

***5.2.4*** **Tir Comin -** *Y Clerc i barhau a'i ymchwil i ddyletswyddau'r Cyngor o ran y Tir Comin yn lleol.*

***5.2.5*** **Iechyd a Diogelwch –** Mewn llaw.

***5.2.6*** **Biniau Halen -** Nododd y Clerc ei fod wedi cysylltu â Gwasaneth Priffyrdd y Cyngor Sir am sicrhäd y byddai bin graean newydd Pistyll ar yr un amodau o ran yswirint a chynnal a chadw a'r biniau sydd mewn lle eisioes. Bwriedir archebu'r bin newydd pan y cawn gadarnhäd ysgrifenedig ei fod o dan yr un amodau. *Y Clerc i fonitro cynnydd.*

***5.2.7*** **Gor-yrru trwy Llithfaen -** Hysbyswyd y Clerc fod Go Safe wedi gofyn i Heddwas adolygu'r rhan berthnasol o'r ffordd am fan diogel i'r fan/beic barcio. Maent wedi edrych ar y mapiau eu hunain ac yn meddwl y bydd, efallai, angen caniatad i barcio ar dir priefat. Gall hynny gymryd amser. Dyma ran olaf y broses. *Y Clerc i adrodd yn ôl ar gynnydd.*
Esboniodd y Clerc nad yw wedi gyrru llythyr i'r Aelod Seneddol eto. Nododd fod y Cyngor wedi penderfynu gyrru llythyr o gwyn i Gomisiynydd yr Heddlu yn eu cyfarfod ym mis Ionawr ond goddiweddwyd y benderfyniad hwn gan ddigwyddiadau eraill. Gofynodd y Clerc os oedd y Cyngor am iddo yrru llythyr o gwŷn i Gomisiynydd yr Heddlu ynteu yr Aelod Seneddol yn gyntaf.
Cynigiodd OR fod y Cyngor yn gyrru llythyr o gwyn i'r ddau endyd. Eiliodd SW a chytunodd pawb. *Y*

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

*Clerc i weithredu.* Ar ôl trafodaeth cynigiodd LJ fod y Cyngor yn gwahodd cynrychiolydd o Adran Draffig y Cyngor Sir yng Nghaernarfon i'w cyfarfod ym mis Gorffennaf i ystyried dulliau posibl i arafu traffig trwy Llithfaen. *Y Clerc i drefnu.*

*6.* **Canolfan Llithfaen -** Nododd y Clerc iddo dderbyn neges gan Wasanaeth Cyfreithiol y Cyngor Sir yn cadarnhau fod bod eu Hadran Eiddo wedi anfon llythyr arall at berchennog Tŷ'r Ysgol yn ystod mis Mawrth. Nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw ymateb gan y perchennog i'r mater. Maent am gysylltu â'r Adran Eiddo am ddiweddariad. Maent wedi archebu llungopiau o'r Gweithredoedd Cyn-gofrestru ar gyfer y Cyngor Cymuned. *Y Clerc i adrodd ar gynnydd ym mis Mehefin.* Cadarnhaodd y Clerc iddo ohebu a'r Cyfreithiwr Annibynnol i holi faint o gostau sydd wedi cronni hyd yn hyn am eich gwaith ar eu rhan yng nghyd destun Y Ganolfan. *Y Clerc i adrodd ar gynnydd ym mis Mehefin.*

**7.** **Sedd Wag –** Cyfredol.

**8.** **Yswiriant –** Adolygwyd Asesiad Risg blynyddol y Cyngor. Cynigiodd OR fod y Cyngor yn derbyn yr Asesiad Risg a adolygwyd. Eiliodd SW a chytunodd pawb.
Yn unol â hysbysiad cyn froceriaid y Cyngor yn 2017, nodwyd i'r Cyngor dderbyn gwaith papur adnewyddu eu hywswiriant am 2018/19 gan cwmni broceriaid BHIB. Nodwyd fod sefydliad 'NALC' yn gweithio mewn partneriaid a'r Broceriaid yma. Fel Aelodau, mae'r Cyngor yn defnyddio Un Llais Cymru ar gyfer cyngor cyffredinol ac mae Un llais Cymru yn gweithredu o dan adain 'NALC'.
Gan hynny, cynigiodd GW fod y Cyngor yn ymrwymo i adnewyddu eu polisi yswiriant trwy BHIB am 3 mlynedd am bremiwm o £437.62 y flwyddyn. Eiliodd WJ a chytunodd pawb. Roedd y Cyngor o'r farn fod hyn yn bodloni cymalau 10.3 ac 11.1g. yn y Rheoliadau Ariannol. *Y Clerc i weithredu.*
Er gwybodaeth, esboniodd y Clerc fod hwn y bolisi safonnol a bod y cysgodfanau bws ynghyd â'r meinciau yn cael eu hyswirio o dan y penawd 'dodrefn stryd'. Nododd hefyd na fydd ffi weinyddol am ychwanegu rhan y Cyngor o Fynwent Eglwys Pistyll at y Polisi yswiriant.

*9.* **Ceisiadau Cynllunio –** Dim.

*10.* **Materion Lleol eraill a godwyd o flaen llaw -**

*10.1* **Dŵr ar Lôn Rhosydd –** Adroddwyd nad yw'r Cyngor Sir wedi defnyddio chwystrellwr cryf i geisio clirio'r rhwystr yn y bibell eto. *Y Cerc i holi pryd y bwriedir ei chwystrellu.*

*11.* **Gohebiaeth**

*11.1* **Rheoli Data –** Nododd y Clerc fod Prif Swyddfa Un Llais Cymru wedi cadarnhau mai'r cwbl sydd angen i'r Cyngor ei wneud erbyn y 25ain o Fai ydyw bod wedi cychwyn ystyried sut i ymgymryd â'r camau yn nhudalenau 12 a 13 yng nghanllawiau NALC.

*11.2* **Cynnig i fapio ardal Cyngor Cymuned Pistyll** - Nodwyd i'r Cyngor dderbyn cynnig i ddarparu map digidol o'r ardal.

*11.3* **Lansiad Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon 2018 – Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig -**
Nodwyd fod gwahoddiad i law i'r Cadeirydd ac un arall fynychu lansiad Gwobr Pentrefi Sir Gaernarfon 2018. Fe'i cynhelir am 6 y.h. ddydd Iau y 10fed o Fai 2018 yn y Ganolfan ym Mhorthmadog.

*11.4* **Systemau Rheoli cyflymdra -** Nodwyd fod y Cyngor wedi derbyn manylion rheolydd traffig LED integredig gan '*TWM traffic control systems'.*

*11.5* **Llythyr am adeiladu tŷ fforddiadwy**
Adroddwyd fod gohebiaeth i law yn gofyn am genogaeth i gais Cyllunio i adaeiladu Tŷ Fforddiadwy ym Mhentref Llithfaen. Wedi trafod ac ystyried yr amgylchiadau a ddaeth i'w sylw cynigiodd LJ fod y Cyngor yn ymateb i'r ohebiaeth trwy nodi fod y Cyngor yn gefnogol i'r cais arfaethedig. Eiliodd OR a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu.*

---

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

11.6 **Gohebiaeth am adolygiad y Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru -**
Nodwyd fod Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yn gofyn am gymorth Cynghorau Tref a Chymuned i gynnal sesiwn "galw heibio" genedlaethol ar draws Cymru. Hoffent i Gynghorau agor ei drysau ddydd Iau 24 Mai 2018 i gasglu sylwadau gan eu cymuned. Nid oes raid cynnal sesiwn diwrnod cyfan. Gellir cynnal sesiwn gyda'r nos os mai dyna'r amser gorau i'r Gymuned.

11.7 **Rhwystrau Iaith a chyfathrebu i gael mynediad i wasanaethau -** Daethpwyd a'r Adroddiad 'Siarad fy Iaith' a gyhoeddwyd ar y 26ain o Ebrill i sylw'r Cyngor. Mae'n ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus yn gwneud eu gwasanaethau'n hygyrch i bobl sy'n wynebu rhwystrau iaith a chyfathrebu. Canolbwyntir ar wasanaethau dehongli a chyfieithu i bobl sy'n fyddar ac yn defnyddio iaith arwyddion, a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg neu Saesneg fel eu prif iaith.

11.8 **Cytundeb Cyflog Cenedlaethol 2018-19** - Cylchredwyd yr wybodaeth at sylw'r Aelodau.

11.9 **Digwyddiad Gwynedd Digidol -** Tynwyd sylw'r Cyngor at ddigwyddiad 'Gwynedd Ddigidiol' sydd i'w gynnal Mai 15fed yn Y Ganolfan ym Mhorthmadog. Bydd wybodaeth am y cynlluniau 'Mynediad i Bawb [Pwyntiau TG]' a 'Mynediad cyhoeddus i WIFI' dan sylw.

11.10 **Memorandwm Dealltwriaeth – Ffioedd Claddu Plant –**
Tynwyd sylw'r Aelodau at yr ohebiaeth gan y Cyngor Sir. *Gofynwyd i'r Clerc gysylltu a'r Cyngor Sir i holi os yw'n berthnasol i Pistyll o ystyried yr amser maith sydd wedi pasio ers i'r fynwent gael ei defnyddio.*

11.11 **Crynodeb o beth yn union mae Un Llais Cymru yn ei wneud -** Nododd y Clerc ei fod wedi cylchredeg y crynodeb ynghlwm i neges e-bost er gwybodaeth.

12. **Cyllid**

12.1 **Cyfrifon 2017/18 yn cynnwys Amserlen hawl i'r Cyhoedd archwilio'r cyfrifon -** Adroddwyd fod angen arddangos hysbysiad archwiliad rhwng 21/5/2018 a 3/6/2018 gyda'r cofnodion i fod ar gael rhwng 04/6/2018 a 29/6/2018. *Y Clerc i sicrhau hyn.*

12.2 **Adroddiadau/gofynion Archwilwyr – Datganiad Rheolaethol y Cyngor -** Bydd y Cyngor yn cwblhau'r Datganiad Rheolaethol y Cyngor yng nghyfarfod mis Mehefin.

12.3 **Treth ar Werth -** Nododd y Clerc ei fod wedi cyflwyno ffurflen i hawlio £120.58 o DAW yn ôl am y cyfnod rhwng y 1af o Fedi 2016 a'r 31ain o Rhagfyr 2017.

12.4 **Trafodion y gyfriflen banc ddiweddaraf**
£160.00 Eurwyn Griffith (Cyflog), £88.00 Un Llais Cymru, £300.00 Uwch Adran Gwrtheyrn, £400.00 Pwyllgior Cae Chwarae, £800 Canolfan Gymdeithasol Llithfaen. Derbyn £4250.00 Cyngoer Gwynedd (Praeseb). Balans yn y Banc: Cyfredol £6838.22. Cadw £2144.75

12.5 **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**
E Griffith (Cyflog Clerc) £160.00 BHIB (Adnewyddu Yswiriant) £437.62

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 12fed o Fehefin, 2018 am 7:30 y.h.**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347